

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer unigolion sy'n gweithio mewn gwasanaeth cyhoeddus. Fe'i lluniwyd i sicrhau bod pobl sy'n paratoi i gyfranogi mewn gweithrediadau brwydro yn meddu ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gyflawni eu dyletswyddau. Fe'i lluniwyd hefyd i sicrhau bod pobl yn cyflawni eu dyletswyddau paratoi ar gyfer gweithrediadau brwydro yn unol â gweithdrefnau sefydliadol.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. dilyn gweithdrefnau sefydliadol bob amser
2. cynnal eich diogelwch personol eich hun a diogelwch pobl eraill bob amser
3. cyflawni'r holl waith paratoi angenrheidiol ar gyfer gweithrediadau brwydro
4. cyflawni ymarferion brwydro sy'n gysylltiedig â'r dasg ac yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
5. gweithredu'n brydlon ar sail gorchmynion a gwybodaeth a dderbyniwyd
6. cadw cyfathrebu yn ddiamwys ac yn unol â phrotocolau gweithrediadau brwydro
7. ymateb yn briodol i amgylchiadau newidiol
8. cyflawni amcanion y dasg a'ch rôl fel y'u pennwyd
9. cyflawni gweithgareddau ar ôl gweithredu, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cyfranogi mewn gweithrediadau brwydro
  - 1.1 mewn gwlad agored
  - 1.2 mewn ardaloedd adeiledig
  - 1.3 mewn gwahanol amgylcheddau
2. defnydd diogel o gyfarpar a phyrotechneg
3. cyfnodau gweithrediadau
4. dilyniant gorchmynion yn ôl eu heffaith arnoch
5. strwythurau sefydliadol a'r defnydd o asedau
6. yr ymarferion brwydro sy'n gysylltiedig â'r dasg
7. amcanion y dasg
8. eich rôl a'ch lefel o gyfrifoldeb
9. pwysigrwydd cyfathrebu clir
10. sut mae dehongli ac ymateb i'r sefyllfa dactegol o fewn eich maes cyfrifoldeb

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Dyma'r gwahanol amodau sy'n effeithio ar sut byddwch chi'n cymhwyso eich gwybodaeth, ac y mae rhaid i chi ddangos cymhwysedd ynddynt:

1. Gweithrediadau:

1.1 mewn gwlad agored

1.2 mewn ardaloedd adeiledig

2 Cyfnodau gweithrediadau:

2.1 ymosod

2.2 amddiffyn

3 Amgylcheddau:

3.1 cemegol, biolegol, radiolegol, niwclear (CBRN)

3.2 confensiynol

Cyfranogi mewn paratoi ar gyfer gweithrediadau brwydro

<b>Datblygwyd gan</b>	Skills for Justice
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	30 Tach 2014
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	30 Tach 2019
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Sgiliau Llywodraeth
<b>RCU gwreiddiol</b>	SFJ 6.13.5
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig eraill, Graddio Rhyfela'r Llynges Frenhinol, Dyletswyddau Cyffredinol y Môr-filwyr Brenhinol, Troedfilwr Brwydro'r Fyddin, Gynnwr Catrawd yr Awyrlu Brenhinol
<b>Cyfres/Set</b>	Lluoedd Arfog, Gwasanaethau Cyhoeddus
<b>Geiriau Allweddol</b>	gweithrediadau brwydro; cyfarpar; pyrotechneg; ymarfer brwydro; defnydd; sefyllfa dactegol; darparu gweithredol